



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

**Y gofynion o ran cymwysterau i weithwyr cymorth
dysgu mewn ysgolion yn y dyfodol**

Cynulleidfa

Pob aelod o staff cymorth dysgu mewn ysgolion yng Nghymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, penaethiaid ac athrawon

Trosolwg

Ar hyn o bryd nid yw Cymru yn pennu gofynion penodol ar gyfer cymwysterau i'r rheini sy'n gweithio fel gweithwyr cymorth dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

O ganlyniad, fel rhan o gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i hyrwyddo rôl a hybu datblygiad staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013, gwnaed ymrwymiad i 'cynnal prosiect ar y cyd ag undebau a chyflogwyr i ystyried beth ddylid ei gynnwys mewn cymwysterau ar gyfer staff addysgu a dysgu sy'n gweithio ar wahanol lefelau yn yr ystafell ddosbarth'.

Darllenwch y deunyddiau yn yr atodiad sy'n berthnasol i faes arbenigedd a gwybodaeth eich cyfnod sector. Hoffem ichi ystyried yr wybodaeth a ddarperir er mwyn ichi allu ymateb drwy'r holiadur ar-lein.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:

Yr Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol

Yr Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: supportstaffenquiries@cymru.gsi.gov.uk

Copiau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn dysgu.cymru.gov.uk

Cynnwys

Y gofynion o ran cymwysterau i weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion yn y dyfodol	2
Cefndir	2
Y materion	2
Y camau nesaf	3
Atodiad 1: Fframwaith cyffredinol o gymwyseddau i staff cymorth dysgu	5
Atodiad 2: Staff cymorth dysgu – gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau proffesiynol generig	8
Atodiad 3: Staff cymorth dysgu – gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau proffesiynol (sector/cyfnod: y Cyfnod Sylfaen)	12
Atodiad 4: Staff cymorth dysgu – gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau proffesiynol (sector/cyfnod: Cyfnod Allweddol 2)	14
Atodiad 5: Staff cymorth dysgu – gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau proffesiynol (sector/cyfnod: Cyfnod Allweddol 3)	16
Atodiad 6: Staff addysgu a staff cymorth dysgu – gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau proffesiynol (sector/cyfnod: Cyfnod Allweddol 4)	18
Atodiad 7: Staff cymorth dysgu – gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau proffesiynol (sector/cyfnod: ysgolion arbennig)	20

Y gofynion o ran cymwysterau i weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion yn y dyfodol

Cefndir

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae rôl staff cymorth dysgu yng Nghymru wedi cael ei datblygu a'i hymestyn, yn bennaf yn sgil gweithredu'r darpariaethau a geir yn y ddogfen Codi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith – Cytundeb Cenedlaethol, ond hefyd o ganlyniad i fentrau ar gyfer gwella darpariaeth mewn perthynas ag addysg y blynyddoedd cynnar.

Drwy ddefnyddio staff cymorth yn eu rôl newydd ac estynedig, gwelwyd newid mawr mewn diwylliant yn y ffordd y mae'r gweithlu ysgol yn cael ei ddefnyddio. Bu hyn yn ffactor allweddol yn yr ymgyrch i godi safonau drwy sicrhau bod yr addysgu o ansawdd uchel.

Mae tystiolaeth yn dangos hefyd y gall y rheini sy'n gweithio mewn rolau cymorth dysgu yn yr ystafell ddosbarth gael effaith fawr ar ddysgu os cânt eu defnyddio'n effeithiol, yn arbennig mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd.

Y materion

Nid oes yna ofynion penodol yng Nghymru ar hyn o bryd mewn perthynas â chymwysterau'r rheini sy'n gweithio fel gweithwyr cymorth dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

O ganlyniad, fel rhan o gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer staff cymorth mewn ysgolion, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013, gwnaed ymrwymiad i:

“Cynnal prosiect ar y cyd ag undebau a chyflogwyr i ystyried beth ddylid ei gynnwys mewn cymwysterau ar gyfer staff cymorth a dysgu sy'n gweithio ar wahanol lefelau yn yr ystafell ddosbarth.”

Ym mis Medi 2013, sefydlwyd grŵp cyfeirio bach yn cynnwys rhanddeiliaid perthnasol i ymchwilio i'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i'r rheini sy'n gweithio fel staff cymorth dysgu yn yr ystafell ddosbarth feddu arnynt, ac a fyddai'n eu galluogi i ymgymryd â'u rolau yn yr ysgol.

Defnyddiodd y grŵp amryw o ffynonellau tystiolaeth, gan gynnwys y gofynion presennol o ran cymwysterau, safonau galwedigaethol perthnasol, proffiliau swyddi'r Cyd-gyngor Cenedlaethol a thystiolaeth berthnasol arall i gwblhau ei dasg. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon a'u profiadau eu hunain, tasg aelodau'r grŵp oedd ystyried a datblygu fframwaith yn cynnwys yr wybodaeth a'r sgiliau pwnc dylid eu cynnwys ar gyfer yr amrywiol lefelau o gymwysterau a ddylai gael eu cynnig i staff cymorth dysgu yng Nghymru.

Mae'r grŵp wedi datblygu model o fframwaith cyffredinol o gymwyseddau yn seiliedig ar yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau proffesiynol generig sy'n

berthnasol i staff cymorth dysgu. Mae hyn yn golygu bod ffocws ar wella effeithiolrwydd ymarferwyr gydol eu gyrfaeodd. Mae'r grŵp hefyd wedi datblygu set yr un o'r wybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau proffesiynol perthnasol ar gyfer pob un o gyfnodau'r sector (Sylfaen; Cyfnod Allweddol 3; Cyfnod Allweddol 4 ac Ysgolion Arbennig).

Mae'r gwaith a wnaed gan y grŵp cyfeirio yn feincnod da ar gyfer dechrau ystyried yr opsiynau a amlinellwyd gan y grŵp yn ogystal ag unrhyw opsiynau eraill y gellid eu datblygu i osod y cyd-destun a'r gofynion ar gyfer cymwysterau yn y dyfodol.

Atodir manylion canlyniadau gwaith y grŵp fel a ganlyn:

Atodiad 1 – Fframwaith Cyffredinol o Gymwyseddau ar gyfer Staff Cymorth Dysgu sy'n Gweithio mewn Ysgolion yng Nghymru
Atodiad 2 – Staff cymorth dysgu – Gwybodaeth, Dealltwriaeth a Sgiliau Proffesiynol Generig
Atodiad 3 – Staff cymorth dysgu – Gwybodaeth, Dealltwriaeth a Sgiliau Proffesiynol (Cyfnod Sylfaen)
Atodiad 4 – Staff cymorth dysgu – Gwybodaeth, Dealltwriaeth a Sgiliau Proffesiynol (Cyfnod Allweddol 2)
Atodiad 5 - Staff cymorth dysgu – Gwybodaeth, Dealltwriaeth a Sgiliau Proffesiynol (Cyfnod Allweddol 3)
Atodiad 6 – Staff cymorth dysgu – Gwybodaeth, Dealltwriaeth a Sgiliau Proffesiynol (Cyfnod Allweddol 4)
Atodiad 7 – Staff cymorth dysgu – Gwybodaeth, Dealltwriaeth a Sgiliau Proffesiynol (Ysgolion Arbennig)

Y camau nesaf

Mae'r ddogfen hon yn cael ei defnyddio i ategu'r digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd eisoes fel sail ar gyfer ceisio barn grŵp ehangach o randdeiliaid sydd â rôl yn datblygu a chyflenwi cymwysterau yn ogystal â chyflogwyr, staff cymorth dysgu presennol ac undebau.

Disgwylir y bydd y farn a geisir yn:-

- Darparu disgwyliad clir gan y sector o'r sgiliau a'r wybodaeth a ddylai fod yn ofynnol yn y dyfodol, ym marn y sector, o ran cymwysterau staff cymorth dysgu mewn ysgolion

- Tynnu sylw at faterion ymarferol a allai godi yn sgil newid y gofynion o ran cymwysterau, a sut y byddai'n bosibl eu datrys
- Codi ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig fydd y disgwyliadau o ran cymwysterau ar gyfer y gweithlu hwn yn y dyfodol
- Dylid nodi nas bwriedir edrych yn ôl wrth gymhwyso'r gofynion hyn.

Eich barn chi

Rydym yn edrych ymlaen at glywed eich sylwadau.

Beth ydym ni am i chi ei wneud



Darllenwch y deunyddiau yn yr atodiad sy'n berthnasol i faes arbenigedd a gwybodaeth eich cyfnod sector. Hoffem ichi ystyried yr wybodaeth a ddarperir er mwyn ichi allu ymateb drwy holiadur ar-lein.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn ystyried yr holl sylwadau ac adborth a dderbynnir cyn gwneud argymhellion i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau.

Diolch yn fawr

Dylai pob ymarferydd gael llwybr dilyniant clir	<p>Atodiad 1: Fframwaith cyffredinol o gymwyseddau i staff cymorth dysgu</p> <p>Ffocws gydol gyrfa ar wella effeithiolrwydd ymarferwyr, gan sicrhau ansawdd drwy reoli perfformiad sy'n nodi anghenion datblygu proffesiynol</p>		
Ymarfer yn cael ei yrru gan safonau priodol gydol gyrfa	Yn gweithio dan gyfarwyddyd / arweiniad staff addysgu / uwch i ymgymryd â rhaglenni gwaith/gofal/cymorth, i alluogi disgyblion i gael mynediad at ddysgu ac i gynorthwyo'r athro i reoli'r disgyblion a'r ystafell ddosbarth. Gellir gwneud gwaith yn yr ystafell ddosbarth, neu y tu allan i'r brif ardal addysgu.	Yn gweithio dan arweiniad staff addysgu / staff uwch ac mewn system o oruchwyliaeth y cytunwyd arni, i weithredu rhaglenni gwaith y cytunwyd arnynt gydag unigolion / grwpiau yn yr ystafell ddosbarth neu y tu allan iddi. Gallai hyn gynnwys y rheini sydd angen gwybodaeth fanwl ac arbenigol mewn meysydd penodol a bydd yn golygu cynorthwyo'r athro gyda'r cylch cynllunio cyfan ac i reoli / paratoi adnoddau. Gallai staff hefyd oruchwyllo dosbarthiadau cyfan o bryd i'w gilydd yn ystod absenoldeb tymor byr athrawon. Bydd y prif ffocws ar gynnal trefn dda a sicrhau bod y disgyblion yn canolbwyntio ar yr hyn sydd ganddynt i'w wneud ar y pryd. Bydd angen i Oruchwylwyr Llanw ymateb i gwestiynau a chynorthwyo disgyblion yn gyffredinol i ymgymryd â gweithgareddau penodedig.	Yn ategu gwaith proffesiynol athrawon drwy gymryd cyfrifoldeb am weithgareddau dysgu y cytunwyd arnynt o dan system o oruchwyliaeth y cytunwyd arni. Gallai hyn gynnwys cynllunio, paratoi a chyflenwi gweithgareddau dysgu ar gyfer unigolion / grwpiau neu, yn y tymor byr, ar gyfer dosbarthiadau cyfan a monitro disgyblion ac asesu a chofnodi cyflawniad, cynnydd a datblygiad disgyblion, ac adrodd arnynt. Yn gyfrifol am reoli ardal arbenigol yn yr ysgol a /neu am reoli cynorthwyr addysgu eraill, gan gynnwys neilltuo gwaith a'i fonitro, arfarnu a hyfforddi.
Cyflawni lefelau	Mae cyflawni ar Lefel 2 yn adlewyrchu'r gallu i ddethol a defnyddio gwybodaeth, syniadau, sgiliau a gweithdrefnau perthnasol i gwblhau tasgau sydd wedi'u diffinio'n eglur a mynd i'r afael â phroblemau syml. Mae'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb am gwblhau	Mae cyflawni ar Lefel 3 yn adlewyrchu'r gallu i nodi a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol i gwblhau tasgau a mynd i'r afael â phroblemau sydd, er eu bod wedi'u diffinio'n eglur, yn gymhleth i raddau. Mae'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb am gychwyn tasgau a gweithdrefnau a'u cwblhau yn ogystal ag arfer ymreolaeth a barn o fewn	Mae'r cynllun CALU cyfredol yn statws a gyflawnir yn erbyn y dystiolaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr ac a gaiff ei chymedroli.

	tasgau ac arfer ymreolaeth a barn yn unol â'r cyfarwyddyd neu'r arweiniad cyffredinol.	terfynau cyfyngedig. Mae hefyd yn adlewyrchu ymwybyddiaeth o wahanol safbwyntiau neu ddulliau mewn un maes astudio neu waith.	
Safonau Proffesiynol / Galwedigaethol			
Gwybodaeth, Dealltwriaeth a Sgiliau Proffesiynol Penodol i Gyfnod / Sector			
	Lefel 2	Lefel 3	CALU Lefel 4
Ysgol Arbennig Cyfnod Allweddol 4 Cyfnod Allweddol 3 Cyfnod Allweddol 2 Cyfnod Sylfaen		Gweler dogfennau penodol i'r Cyfnod/Sector Atodiadau 3-7	
Datblygiad Gyrfa			
Gwybodaeth, Dealltwriaeth a Sgiliau Proffesiynol Generig		Gweler Gwybodaeth, Dealltwriaeth a Sgiliau, Proffesiynol Generig Atodiad 2	
Ymsefydlu yn ystod Blwyddyn Ymarfer Gyntaf – Lleiafswm y Gofynion i Bob Staff Cymorth			
Cymwyseddau Lefel Mynediad	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol Hanfodol		

<p>4. Yn adlewyrchu'r gallu i ddefnyddio gwybodaeth, sgiliau a gweithdrefnau perthnasol i gwblhau tasgau rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am gwblhau tasgau a gweithdrefnau yn unol â chyfarwyddyd neu arweiniad.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Trosolwg cadarn o'r system addysg yng Nghymru • Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Diogelu • Iechyd a Diogelwch • Cyfle Cyfartal • Datblygiad y plentyn a dealltwriaeth o'r ffordd y mae plant yn dysgu • Cynhwysiant • Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) • Rheoli ymddygiad • Cymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig • Sgiliau Llythrennedd, Rhifedd, TGCh da (i gyflawni cymhwyster safonol NVQ Lefel 2 neu gyfwerth mewn Llythrennedd a Rhifedd a NVQ safonol Lefel 1 mewn TGCh erbyn diwedd y Flwyddyn Ymarfer Gyntaf)
<p>3. Yn adlewyrchu'r gallu i ddefnyddio sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth i ymgymryd â thasgau a gweithgareddau wedi'u strwythuro mewn cyd-destunau cyfarwydd gydag arweiniad priodol pan fo angen.</p>	
<p>2. Yn adlewyrchu'r gallu i ddefnyddio sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth i ymgymryd â thasgau a gweithgareddau cyfarwydd a syml gydag arweiniad.</p>	
<p>1. Yn cydnabod cynnydd ar hyd continwmm, sy'n amrywio o'r cyflawniadau mwyaf elfennol i ddechrau gwneud defnydd o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n berthnasol i'r amgylchedd uniongyrchol.</p>	
<p>Nodweddion Proffesiynol Hanfodol</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Yn dangos sgiliau cyfathrebu effeithiol • Yn dangos gwerthoedd, agweddau ac ymddygiadau cadarnhaol yn unol ag ethos yr ysgol • Yn dangos ymrwymiad i weithio'n effeithiol gyda chydweithwyr, rhieni a disgyblion • Yn frwdfrydig dros weithio gyda phlant ac yn dangos ymrwymiad i gefnogi disgyblion i gyflawni eu potensial • Yn gweithio o fewn ffiniau'r sefydliad • Yn dangos ymrwymiad i'w datblygiad proffesiynol eu hunain 	
<p>Yn gweithio o dan gyfarwyddyd uniongyrchol staff addysgu / uwch, fel arfer yn yr ystafell ddosbarth gyda'r athro, i gefnogi disgyblion i gael mynediad at ddysgu ac i roi cefnogaeth gyffredinol i'r athro i reoli disgyblion yn yr ystafell ddosbarth (safon Cynorthwydd Addysgu Lefel 1)</p>	

Atodiad 2: Staff cymorth dysgu – gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau proffesiynol generig

Ymsefydlu yn ystod Blwyddyn Ymarfer Gyntaf	Lefel 2	Lefel 3
<p>Nodweddion Proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn cyfrannu'n gadarnhaol at nodau cyffredinol ac ethos yr ysgol • Yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau'r ysgol mewn perthynas â diogelu, iechyd a diogelwch, cyfrinachedd, diogelu data, cynhwysiant a chyfle cyfartal, ac yn cydymffurfio â hwy • Yn gallu gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm proffesiynol • Yn dangos brwdfrydedd dros weithio gyda phlant a'r gallu i feithrin perthynas dda â phlant → <p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn dangos lefel dda o sgiliau llythrennedd a rhifedd (NVQ Lefel 2 neu'n gweithio tuag at hynny) • Yn dangos lefel briodol o sgiliau TGCh (NVQ Lefel 1 neu'n gweithio tuag at hynny) • Yn meddu ar drosolwg o'r system addysg yng Nghymru a'r cwricwlwm 	<p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau'r flwyddyn ymarfer gyntaf wedi'u hymwreiddio • Bydd hyn yn arwain at wybodaeth a dealltwriaeth fanylach, a datblygiad sgiliau ar lefel fwy cymhleth • Lefel dda o sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh wedi'i sefydlu'n gadarn (cyflawnwyd NVQ Lefel 2) • Ceir dealltwriaeth fanylach o'r cwricwlwm cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen a rhaglenni dysgu sylfaenol yn ogystal â strategaethau a mentrau cenedlaethol • Ceir gwybodaeth am y Cod Ymarfer AAA i Gymru ac am ddeddfwriaeth anabled • Ceir dealltwriaeth gadarn o reoli ymddygiad yn effeithiol <p>Sgiliau Proffesiynol</p> <p>Yn gweithio dan gyfarwyddyd/ arweiniad y staff addysgu / uwch i ymgymryd â rhaglenni gwaith/ gofal / cefnogi i alluogi disgyblion i gael mynediad at ddysgu ac i</p>	<p>Ceir gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a sicr, ac mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar yr ymarfer ar y lefel hon</p> <p>Sgiliau Proffesiynol</p> <p>Ar Lefel 3, bydd staff cymorth yn gweithio o dan arweiniad staff addysgu, ac o dan system o oruchwyliaeth y cytunwyd arni, i roi rhaglenni gwaith y cytunwyd arnynt ar waith gydag unigolion/ grwpiau, yn yr ystafell ddosbarth neu y tu allan iddi. Gallai hyn gynnwys y rheini sydd angen gwybodaeth fanwl ac arbenigol mewn meysydd penodol a bydd yn golygu cynorthwyo'r athro gyda'r cylch cynllunio cyfan ac i reoli a pharatoi adnoddau. Gallai staff hefyd oruchwyllo dosbarthiadau cyfan yn achlysurol yn ystod absenoldebau tymor byr athrawon.</p> <p>Yn ogystal â thasgau Lefel 2, gallai tasgau Lefel 3 gynnwys gweithio gyda'r athro i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu amgylchedd dysgu priodol • Cynllunio gwersi: gwerthuso cynlluniau a'u haddasu • Rhoi rhaglenni dysgu y cytunwyd

<p>cenedlaethol, gan gynnwys y Cwricwlwm Cymreig</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn meddu ar ddealltwriaeth o ddatblygiad y plentyn a sut mae plant yn dysgu • Yn meddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o ALN • Yn ymwybodol o egwyddorion rheoli ymddygiad da • Yn meddu ar ddealltwriaeth o drefniadaeth ystafell ddosbarth ac yn dangos sgiliau i gynorthwyo i ddatblygu ardaloedd ar gyfer dysgu ac arddangosfeydd effeithiol yn yr ystafell ddosbarth • Yn meddu ar wybodaeth sylfaenol am gymorth cyntaf <p>Sgiliau Proffesiynol Yn gweithio o dan gyfarwyddyd uniongyrchol staff addysgu ac uwch i gefnogi mynediad at ddysgu i ddisgyblion ac i gefnogi'r athro:</p> <p>Gallai'r tasgau gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofalu am anghenion personol, cymorth cyntaf a materion lles disgyblion • Goruchwylio a chefnogi disgyblion i 	<p>gynorthwyo'r athro i reoli disgyblion a'r ystafell ddosbarth</p> <p>Yn ogystal â thasgau Lefel 1, gallai tasgau Lefel 2 gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynorthwyo gyda datblygu a gweithredu Cynlluniau Addysg Unigol (CAU)/ Cynlluniau Ymddygiad Unigol (CYU)/ Cynlluniau Gofal Personol • Rhoi cefnogaeth benodol i unigolion / grwpiau o ddisgyblion • Cynorthwyo i gynllunio gweithgareddau dysgu • Monitro ymatebion disgyblion i'r dysgu a chofnodi, fel a gyfarwyddwyd • Ymgymryd â gweithgareddau dysgu strwythuredig y cytunwyd arnynt gydag unigolion/grwpiau o ddisgyblion • Gweinyddu profion rheolaidd a goruchwylio arholiadau • Cefnogi'r defnydd o TGCh mewn gweithgareddau dysgu a datblygu cymhwysedd disgyblion o ran ei ddefnyddio, a sicrhau eu bod yn gallu gwneud hynny yn fwyfwy annibynnol 	<p>arnynt ar waith, gan addasu gweithgareddau yn unol ag anghenion disgyblion</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu strategaethau dysgu lleol a chenedlaethol, ee y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol • Helpu disgyblion i gael mynediad at ddysgu drwy gefnogaeth arbenigol • Monitro a gwerthuso ymatebion disgyblion drwy arsylwi a thrwy gofnodi, wedi'i gynllunio ymlaen llaw, y cyflawniad yn erbyn amcanion dysgu y cytunwyd arnynt ymlaen llaw
--	--	--

<p>sicrhau eu bod yn ddiogel a bod ganddynt fynediad at ddysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi disgyblion i ddeall cyfarwyddiadau • Cefnogi disgyblion gyda rhaglenni dysgu fel a gyfarwyddir gan yr athro / staff uwch • Cefnogi'r athro i reoli ymddygiad disgyblion a datblygu sgiliau cymdeithasol • Paratoi'r ystafell ddosbarth / ardaloedd dysgu ac adnoddau, rhoi deunyddiau i gadw a chynorthwyo i arddangos gwaith disgyblion ac arddangosfeydd dysgu ac addysgu fel a gyfarwyddir • Rhoi cefnogaeth weinyddol/clerigol sylfaenol, ee llungopio, ffeilio cofnodion 	<ul style="list-style-type: none"> • Paratoi, cynnal a defnyddio'r offer/ adnoddau sy'n angenrheidiol i fodloni'r cynlluniau gwersi neu'r gweithgarwch dysgu perthnasol, a helpu disgyblion i'w defnyddio 	
--	--	--

Atodiad 3: Staff cymorth dysgu – gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau proffesiynol (sector/cyfnod: y Cyfnod Sylfaen)

Ymsefydlu yn ystod Blwyddyn Ymarfer Gyntaf	Lefel 2	Lefel 3
<p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth Yn meddu ar drosolwg cadarn o gwricwlwm ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen. →</p> <p>Sgiliau Proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gan weithio o dan oruchwyliaeth uniongyrchol a chydag arweiniad clir, yn cefnogi'r gwaith o gyflawni cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen → • Gan weithio o dan oruchwyliaeth uniongyrchol a chydag arweiniad clir, yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr i gefnogi dysgu'r plant, gan gynnwys dysgu yn yr awyr agored → • Gan weithio o dan oruchwyliaeth 	<p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gwricwlwm ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen.</p> <p>← Penodol i'r Cyfnod Sylfaen →</p> <p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Datblygiad y Plentyn/ Datblygiad Llythrennedd / Rhifedd Cynnar ○ Datblygiad Cymraeg Ail Iaith ○ Asesu ○ Darpariaeth Barhaus, Well ag iddi Ffocws ○ Chwarae i Ddysgu/ Datblygiad Corfforol ○ Dysgu yn yr Awyr Agored <p>Sgiliau Proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gan weithio o dan arweiniad cydweithwyr /yr athro, yn cefnogi a chyfoethogi datblygiad lleferydd ac iaith y plant → 	<p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth fanwl a chadarn o gwricwlwm ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen</p> <p>Sgiliau Proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn cymryd rhan ragweithiol i gynllunio gweithgareddau dysgu gyda'r athro • Yn cyfrannu'n rhagweithiol at werthuso'r dysgu • Yn cymryd rhan ragweithiol i arsylwi ar y dysgu ac mewn asesiadau dysgu ag iddynt ffocws, o dan gyfarwyddyd yr athro • O dan arweiniad yr athro, yn gosod yr ardaloedd dysgu yn annibynnol • O dan arweiniad yr athro, yn cyflwyno rhaglenni penodol y Cyfnod Sylfaen, ee y Crwban Bach

<p>uniongyrchol a chydag arweiniad clir, yn cefnogi chwarae creadigol a dychmygus plant →</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gan weithio o dan oruchwyliaeth uniongyrchol a chydag arweiniad clir, yn cefnogi datblygiad sgiliau gofal personol a sgiliau cymdeithasol → • Gan weithio o dan oruchwyliaeth uniongyrchol a chydag arweiniad clir, yn paratoi adnoddau ac ardaloedd dysgu → 	<ul style="list-style-type: none"> • Gan weithio o dan arweiniad cydweithwyr/ yr athro, yn cefnogi a chyfoethogi datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd cynnar y plant → • Gan weithio o dan arweiniad cydweithwyr/ yr athro, yn cefnogi a chyfoethogi datblygiad corfforol y plant, gan gynnwys cefnogi a gwella'r gwaith o weithredu rhaglenni penodol ee Chwarae i Ddysgu → 	<ul style="list-style-type: none"> • O dan arweiniad yr athro, yn cael cyfle yn achlysurol i gefnogi dysgu grwpiau mawr, gan gynnwys y dosbarth cyfan • Yn cyflenwi yn y tymor byr yn achlysurol pan fo'r athro yn absennol
---	---	---

Disgwylir y byddai'r gweithgareddau a gyflawnir ar Lefel 1 yn cael eu cyflawni ar lefel cymhwysedd uwch, ac yn fwyfwy annibynnol, ar Lefel 2 a Lefel 3. Bydd staff cymorth sy'n gweithio ar Lefel 3 yn cymryd rhan i ddarparu'r dysgu yn ogystal â chefnogi'r dysgu.

Atodiad 4: Staff cymorth dysgu – gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau proffesiynol (sector/cyfnod: Cyfnod Allweddol 2)

Ymsefydlu yn ystod Blwyddyn Ymarfer Gyntaf	CYFNOD ALLWEDDOL 2 : Lefel 2	CYFNOD ALLWEDDOL 2 : Lefel 3
<p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol Gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol am gwricwlwm CA2 a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.</p> <p>Sgiliau/Tasgau Proffesiynol Gan weithio o dan oruchwyliaeth uniongyrchol a chydag arweiniad clir:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn cefnogi disgyblion unigol â rhaglenni ymyriadau ar gyfer llythrennedd a rhifedd, ee Dyfal Donc (Catch Up), meddalwedd RM Maths • Yn cynorthwyo i weithredu Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) a Chynlluniau Ymddygiad Unigol (CYU) disgyblion • Yn gweithio gyda grwpiau targed i godi safonau mewn 	<p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth Gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gwricwlwm CA2 a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd</p> <p>Sgiliau / Tasgau Proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn gweithio dan arweiniad a goruchwyliaeth i weithredu CAU a CYU ar gyfer disgyblion unigol gan roi adborth llafar i'r athro / Cydlynnydd ALN • O dan arweiniad yr athro / Cydlynnydd ALN, yn cynllunio eu rôl eu hunain wrth gefnogi disgyblion unigol gyda rhaglenni ymyriadau ar gyfer llythrennedd a rhifedd • O dan arweiniad yr athro, yn gweithio gyda grwpiau targed i godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd, gan ddechrau cynllunio eu rôl eu hunain yn y gweithgareddau hyn 	<p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a chadarn o gwricwlwm CA2 a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd</p> <p>Sgiliau / Tasgau Proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn darparu mewnbwn i ddatblygiad a gweithrediad CAU a CYU, yn cofnodi ac adrodd ar gynnydd i'r athro dosbarth / Cydlynnydd ALN • Ar sail cynlluniau'r athro / Cydlynnydd ALN, yn cynllunio eu rôl eu hunain i gefnogi disgyblion unigol gyda rhaglenni ymyriadau ar gyfer llythrennedd a rhifedd • Yn darparu mewnbwn i gynlluniau athrawon ar gyfer gweithgareddau dysgu unigolion, grwpiau a dosbarthiadau cyfan • Ar sail cynlluniau'r athro, yn trefnu eu rôl eu hunain mewn gweithgareddau ar gyfer grwpiau targed, gan gynnwys dethol a pharatoi adnoddau addas

<p>llythrennedd a rhifedd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn esiampl i eraill ac yn ymateb i anghenion unigolion • Yn cefnogi disgyblion i ddefnyddio TGCh yn ôl cyfarwyddyd yr athro • Yn paratoi adnoddau addas i gefnogi'r dysgu, o dan arweiniad yr athro • Yn ymwybodol o bolisi ymddygiad yr ysgol 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth gyffredinol o'r Cod Ymarfer AAA • Yn dethol a pharatoi adnoddau perthnasol i wella'r dysgu wrth weithio gydag unigolion a grwpiau o ddisgyblion • O dan arweiniad yr athro, yn cefnogi unigolion neu grwpiau yn ystod gweithgareddau dosbarth cyfan • Yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o bolisi ymddygiad yr ysgol 	<ul style="list-style-type: none"> • Yn deall nodau ac amcanion, a chanlyniadau arfaethedig gweithgareddau dysgu ar gyfer unigolion a grwpiau targed gan gynnwys cynllunio'r camau nesaf • Yn cyfrannu at asesiadau athrawon o gynnydd disgyblion • Yn cefnogi'r defnydd o TGCh mewn gweithgareddau dysgu a datblygu cymhwysedd disgyblion o ran ei ddefnyddio • O dan arweiniad yr athro, yn darparu cefnogaeth achlysurol i ddatblygu'r dysgu gyda grwpiau mwy • Yn cyflenwi yn y tymor byr yn achlysurol pan fo'r athro yn absennol
---	---	---

Atodiad 5: Staff cymorth dysgu – gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau proffesiynol (sector/cyfnod: Cyfnod Allweddol 3)

Ymsefydlu yn ystod Blwyddyn Ymarfer Gyntaf	Lefel 2	Lefel 3
<p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol am bob pwnc ar y cwricwlwm hyd at Lefel 6 Cyfnod Allweddol 3</p> <p>Sgiliau Proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogaeth un-i-un – yn gweithio gydag un disgybl gydol y dydd • Yn meithrin perthynas dda â disgyblion, yn esiampl da i eraill ac yn ymwybodol o anghenion unigolion ac yn ymateb yn briodol iddynt • Yn cefnogi'r athro i reoli ymddygiad disgyblion, gan adrodd am anawsterau fel sy'n briodol • Yn cefnogi disgyblion o ran strategaethau dysgu lleol a chenedlaethol, ee llythrennedd, rhifedd, CA3 fel a gyfarwyddir gan yr athro • Yn cefnogi disgyblion i ddefnyddio TGCh sylfaenol fel a gyfarwyddir 	<p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol Yn arbenigo mewn maes pwnc, ee Cymraeg, Mathemateg</p> <p>Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o raglenni AAA penodol, ee Llythrennedd Dyfal Donc (Catch Up), Alpha & Omega</p> <p>Sgiliau Proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn cefnogi gweithgareddau llythrennedd a rhifedd • Clwb gwaith cartref – yn cymryd cyfrifoldeb • Yn gweinyddu profion rheolaidd ac yn goruchwyllo arholiadau • Yn cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu CAU/CYU a rhaglenni gofal personol • Yn ymgymryd â rhaglenni sy'n gysylltiedig â strategaethau lleol a chenedlaethol, ee llythrennedd, rhifedd, CA3, y blynyddoedd cynnar, gan gofnodi'r cyflawniadau 	<p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol Yn defnyddio hyfforddiant/profiad/sgiliau arbenigol (cwricwlaidd/ dysgu) i gefnogi disgyblion</p> <p>Sgiliau Proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn cymryd cyfrifoldeb am raglen AAA benodol, gan wybod pryd i symud disgyblion ymlaen i'r cam nesaf • Yn cymryd rhan i gynnis hyfforddiant cynefino i staff Lefel 1

<ul style="list-style-type: none"> • Yn cynorthwyo i ddatblygu Cynlluniau Addysg Unigol (CAU)/Cynlluniau Ymddygiad Unigol (CYU) a rhaglenni gofal personol, ac i'w gweithredu • Yn hyrwyddo cynhwysiant pob disgybl, ac yn ymdrechu i sicrhau bod pob disgybl yn cael ei dderbyn 	<p>a'r cynnydd ac adrodd yn ôl i'r athro</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn cefnogi'r defnydd o TGCh mewn gweithgareddau dysgu ac yn datblygu cymhwysedd disgyblion o ran ei ddefnyddio, a sicrhau eu bod yn gallu gwneud hynny yn fwyfwy annibynnol 	
--	--	--

Disgwylir y byddai'r gweithgareddau a gyflawnir ar Lefel 1 yn cael eu cyflawni ar lefel cymhwysedd uwch, ac yn fwyfwy annibynnol, ar Lefel 2 a Lefel 3. Bydd staff cymorth sy'n gweithio ar Lefel 3 yn cymryd rhan i ddarparu'r dysgu yn ogystal â chefnogi'r dysgu.

Atodiad 6: staff addysgu a staff cymorth dysgu – gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau proffesiynol (sector/cyfnod: Cyfnod Allweddol 4)

Ymsefydlu yn ystod Blwyddyn Ymarfer Gyntaf	CYFNOD ALLWEDDOL 4: Lefel 2	CYFNOD ALLWEDDOL 4: Lefel 3
<p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol am gwricwlwm Cyfnod Allweddol 4</p> <p>Sgiliau/Tasgau Proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn darparu cefnogaeth un-i-un: yn gweithio gydag un disgybl gydol y dydd • Yn meithrin perthynas dda â disgyblion, yn esiampl da i eraill ac yn ymwybodol o anghenion unigolion, ac yn ymateb yn briodol iddynt • Yn cefnogi'r athro i reoli ymddygiad disgyblion, gan adrodd am anawsterau fel sy'n briodol • Yn cefnogi disgyblion o ran strategaethau dysgu lleol a chenedlaethol, ee llythrennedd a rhifedd • Yn cefnogi disgyblion i 	<p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn am gwricwlwm Cyfnod Allweddol 4</p> <p>Sgiliau/Tasgau Proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn goruchwyllo arholiadau - TGAU mewn maes pwnc craidd - Cymraeg, Mathemateg, Saesneg yn CA4 • Yn gweithredu fel ysgrifennydd mewn arholiadau TGAU • Yn cefnogi gweithgareddau llythrennedd a rhifedd • Yn cymryd cyfrifoldeb am y Clwb Gwaith Cartref • Yn cynorthwyo gyda datblygu a gweithredu CAU/CYU a rhaglenni gofal personol 	<p>Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol Wedi cael hyfforddiant arbenigol mewn rhaglenni perthnasol, ee rheoli ymddygiad.</p> <p>Sgiliau/Tasgau Proffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn adolygu TGAU mewn dosbarthiadau CA4, ee Hanes • Yn rhoi cefnogaeth un-i-un ar gyfer disgyblion AAA, ee dyslecsia • Yn cefnogi disgyblion/myfyrwyr gyda Sgiliau Allweddol CA4 a Bagloriaeth Cymru • Yn chwarae rhan i gynig hyfforddiant cynefino i staff Lefel 1 • Yn cyflenwi yn y tymor byr yn achlysurol pan fo athro yn absennol

<p>ddatblygu sgiliau TGCh, fel a gyfarwyddir gan yr athro</p> <ul style="list-style-type: none">• Yn cynorthwyo i ddatblygu Cynlluniau Addysg Unigol (CAU)/Cynlluniau Ymddygiad Unigol (CYU) a rhaglenni gofal personol, ac i'w gweithredu• Yn hyrwyddo cynhwysiant pob disgybl, ac yn ymdrechu i sicrhau bod pob disgybl yn cael ei dderbyn		
---	--	--

Atodiad 7: Staff cymorth dysgu – gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau proffesiynol (sector/cyfnod: ysgolion arbennig)

Ymsefydlu yn ystod Blwyddyn Ymarfer Gyntaf	Lefel 2	Lefel 3
<p>Yn meddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bolisiau, codau ymarfer a deddfwriaeth berthnasol: cwricwlwm cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen, Llwybrau Dysgu 14-19 - fel y bo'n berthnasol i'r swydd • Anghenion disgyblion gydag ystod o anghenion addysgol arbennig (AAA), gan gynnwys anhwylderau ar y sbectrwm awtistig (ASD) ac ymddygiad heriol • Egwyddorion rheoli ymddygiad yn gadarnhaol • Prif egwyddorion datblygiad y plentyn • Materion Anabledd • Materion amddiffyn a diogelu plant • Strategaethau ar gyfer gwella deilliannau'r dysgwyr • Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) • Codi a chario • Meddyginiaeth 	<p>Yn datblygu polisiau perthnasol ac yn eu gweithredu</p> <p style="text-align: center;">← →</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn gwneud defnydd effeithiol o TGCh i gefnogi'r dysgu • Yn deall polisiau / codau ymarfer perthnasol ac yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth berthnasol • Yn meddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o gwricwlwm cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen a rhaglenni/strategaethau dysgu sylfaenol eraill • Yn meddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o ddatblygiad a dysgu'r plentyn • Yn gallu hunanwerthuso eu hanghenion dysgu ac yn mynd ati i 	<p>Yn meddu ar ddealltwriaeth ragorol o:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bolisiau, codau ymarfer a deddfwriaeth berthnasol: cwricwlwm cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen, Llwybrau Dysgu 14-19 - fel y bo'n berthnasol i'r swydd • Anghenion disgyblion gydag ystod o AAA, gan gynnwys ASD ac ymddygiad heriol • Egwyddorion rheoli ymddygiad yn gadarnhaol • Prif egwyddorion datblygiad y plentyn • Materion Anabledd • Materion amddiffyn a diogelu plant • Strategaethau ar gyfer gwella deilliannau'r dysgwyr • Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) • Codi a chario • Meddyginiaeth <p style="text-align: center;">Sgiliau</p>

<p style="text-align: center;">Sgiliau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau rhifedd a llythrennedd • Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol effeithiol • Sgiliau trefniadol a TGCh • Yn gallu cynllunio a chyflawni eu llwyth gwaith eu hunain • Yn hyblyg ac yn barod i ymgymryd ag ystod eang o ddyletswyddau yn gysylltiedig â rôl Cynorthwydd Addysgu Lefel 1 • Yn gallu gweithio fel rhan o dîm ac ar eu pennau eu hunain pan fo angen • Yn gallu cefnogi gweithgareddau ar gyfer dysgwyr ac yn gallu cefnogi'r gwaith o weithredu rhaglenni cefnogaeth arbenigol • Yn gallu cefnogi dysgwyr sydd ag ymddygiad heriol <p style="text-align: center;">Gwybodaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth briodol am Gymorth Cyntaf • Yn gallu defnyddio technoleg sylfaenol - cyfrifiadur, fideo, llungopiwr • Yn gallu uniaethu'n dda â phlant ac 	<p>chwilio am gyfleoedd dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn gallu meithrin perthynas dda â phlant ac oedolion • Yn gallu gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm, gan ddeall rolau a chyfrifoldebau yn yr ystafell ddosbarth a'u sefyllfa eu hunain yn y cyd-destun hwn 	<ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau rhifedd a llythrennedd rhagorol • Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol effeithiol iawn • Sgiliau trefniadol a TGCh rhagorol • Yn gallu cynllunio a chyflawni eu llwyth gwaith eu hunain a chyfarwyddo gwaith eraill yn effeithiol • Yn hyblyg ac yn barod i ymgymryd ag ystod eang o ddyletswyddau yn gysylltiedig â rôl Cynorthwydd Addysgu Lefel 3 • Uniondeb personol a'r gallu i wneud y defnydd gorau o'u sgiliau, eu hadnoddau a'u galluoedd eu hunain • Yn gallu arwain pan fo angen, gweithio mewn tîm a gweithio ar eu pennau eu hunain • Yn gallu cydweithio â thimau amlbroffesiynol • Yn gallu trefnu ac arwain gweithgareddau ar gyfer dysgwyr a rhoi rhaglenni cefnogaeth arbenigol ar waith • Yn gallu cefnogi dysgwyr sydd ag ymddygiad heriol a defnyddio amrywiol strategaethau i gefnogi
---	---	--

<p>oedolion</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm, yn deall rolau a chyfrifoldebau yn yr ystafell ddosbarth a'u sefyllfa eu hunain yn y cyd-destun hwn <p>Rhywfaint o ddealltwriaeth o:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Systemau Cyfathrebu Cynyddol amrywiol (ee PECS, Singalong, cymhorthion TGCh Cynyddol) • Y gallu i gyfathrebu'n Gymraeg • Yn gallu defnyddio offer technoleg arall - fideo, llungopiwr ar gyfer y dysgwyr - ac yn gallu cynorthwyo gyda rhaglenni cefnogaeth arbenigol • Wedi ymrwymo i'w datblygiad proffesiynol eu hunain • Wedi ymrwymo i athroniaeth cynhwysiant • Yn frwdfrydig ynghylch gweithio gyda phlant • Yn meddu ar ymagwedd hyderus a hyblyg tuag at waith • Yn gallu cadw cyfrinachedd bob amser a gweithio mewn modd nad 		<p>disgyblion</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg <p>Gwybodaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth briodol am Gymorth Cyntaf • Yn gallu defnyddio technoleg sylfaenol - cyfrifiadur, fideo, llungopiwr • Yn gallu uniaethu'n dda â phlant ac oedolion • Yn gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm, yn deall rolau a chyfrifoldebau yn yr ystafell ddosbarth a'u sefyllfa eu hunain yn y cyd-destun hwn <p>Dealltwriaeth dda o:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Systemau Cyfathrebu Cynyddol amrywiol (ee PECS, Singalong, cymhorthion TGCh Cynyddol) • Yn gallu defnyddio offer technoleg arall - fideo, llungopiwr ar gyfer y dysgwyr - ac yn gallu cynorthwyo gyda rhaglenni cefnogaeth arbenigol
--	--	---

<p>yw'n gwahaniaethu, ac yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Wedi ymrwymo i'w datblygiad proffesiynol eu hunain • Wedi ymrwymo i athroniaeth cynhwysiant • Yn frwdfrydig ynghylch gweithio gyda phlant • Yn meddu ar ymagwedd hyderus a hyblyg tuag at waith • Yn gallu cadw cyfrinachedd bob amser a gweithio mewn modd nad yw'n gwahaniaethu, ac yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal
---	--	--

Disgwylir y byddai'r gweithgareddau a gyflawnir ar Lefel 1 yn cael eu cyflawni ar lefel cymhwysedd uwch, ac yn fwyfwy annibynnol, ar Lefel 2 a Lefel 3. Bydd staff cymorth sy'n gweithio ar Lefel 3 yn cymryd rhan i ddarparu'r dysgu yn ogystal â chefnogi'r dysgu.